

6 Mawrth 2019

I sylw holl Gyngorwyr Gwynedd

Par: Canolfannau Hwyrddyfodiaid Gwynedd

Ysgrifennwn atoch mewn perthynas â chynnig fydd gerbron y cyngor llawn yfory (7 Mawrth) sy'n galw ar Gyngor Gwynedd i roi heibio'r bwriad i ail-strwythuro Canolfannau Iaith y Sir.

Pwyswn arnoch fel aelodau etholedig y Sir i bleidleisio o blaid y cynnig ac i roi neges glir a diamwys i'r Cabinet mai cam gwag fyddai bwrw ymlaen gyda'r cynllun cyfeiliornus hwn.

Gwynedd yw'r unig sir yng Nghymru lle mae disgwyl i bob plentyn cynradd fynd i ysgol Gymraeg leol. Mae dilyniant clir wedyn i'r sector uwchradd. Mae hyn yn golygu bod angen i bob mewnddyfodiad i'r sir dderbyn cwrs Cymraeg dwys cyn gallu ymdopi ag addysg yn yr ysgol leol.

Mae'r Canolfannau Iaith yn elfen annatod o seilwaith ieithyddol ein gwlad ac yn wasanaeth rheng flaen gwerthfawr wrth arfogi disgyblion Gwynedd gyda sgiliau angenrheidiol yn y Gymraeg. Ond nid cyfraniad ieithyddol yn unig a wneir ganddynt ychwaith, ond un sy'n amhrisiadwy o safbwynt hybu cymathiad, hyrwyddo hunaniaeth a chynnal gwead cymunedau naturiol Cymraeg a Chymreig y Sir.

Does dim dwywaith y byddai cymryd camau i gwtogi ar adnodd o'r fath yn gwanychu cyfundrefn addysg Gymraeg y Sir ac yn cael effaith andwyol a phellgyrhaeddol ar y Gymraeg fel iaith gymunedol yng Ngwynedd.

Bydd RhAG yn aml yn cyfeirio at Ganolfannau Iaith Gwynedd fel enghraifft lachar o arfer dda wrth bwysu ar siroedd eraill i sefydlu darpariaeth tebyg ar gyfer hwyrddyfodiaid. Yn hytrach na chwtdogi, dylai Cyngor Gwynedd arddel, meithrin a chynnal y gwasanaeth hwn, fel esiamp i weddill Cymru.

Rydym eisoes wedi ysgrifennu at Lywodraeth Cymru i bwysu arnynt i ymyrryd ar fyrder, trwy ddarparu cefnogaeth ariannol arbennig i Gyngor Gwynedd, fel na fydd y gwaith pwysig yma o dan fygythiad pellach.

Yn achos mewnddyfodiaid i wledydd Prydain, mae'r Llywodraeth yn cynnig gwersi iaith Saesneg am ddim. Dylai hyn ddigwydd i fewnddyfodiaid i Gymru, ac yn arbennig i Wunedd, gyda gwersi Cymraeg yn cael eu darparu am ddim.

Nid yw'n deg disgwyl i'r Sir wneud y gwaith ychwanegol yma heb dderbyn cymorth ariannol arbennig gan y Llywodraeth.

Os yw'r Llywodraeth o ddifrif am weld miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050, mae'n rhaid rhoi rhaglen o dwf cyflym ar waith ac mae diogelu cyllid y gwasanaeth pwysig yma'n elfen cwbl allweddol o wireddu'r polisi cenedlaethol hwn.

Felly, pwyswn yn daer arnoch i wneud safiad tyngedfennol yfory, trwy ddatgan yn glir ac yn groyw, y dylai'r Cabinet ddiogelu'r gwasanaeth gwerthfawr hwn ac i alw ar Lywodraeth Cymru i fuddsoddi'n ddigonol yn yr hanfodion hynny sy'n anhepgorol er mwyn gwireddu polisi Cymraeg 2050.

Yn gywir



Wyn Williams
Cadeirydd Cenedlaethol RhAG